



BUYING
RESPONSIBLY

Croeso i'r Cylchlythyr Buddion Lles Cymunedol ar gyfer Chwarter 2 y Flwyddyn Ariannol 2025/2026

O fewn cylchlythyr y chwarter hwn rydym yn edrych ar yr holl ddarpariaeth BLIC lleol yn ogystal â ffarwelio â'n Rheolwr Strategaeth a Datblygu, John.

Mae John Paxton yn ymddeol o'i rôl fel Rheolwr Strategaeth a Datblygu yn y Tîm Caffael. Mae effaith John wedi cael ei theimlo ar draws pedwar cyngor Ardal - Caerdydd, Sir Fynwy, Torfaen a Bro Morgannwg. Arweiniodd John brosiectau sydd wedi arwain at ddatblygu a gweithredu Rheolau Gweithdrefn Contract safonedig ynghyd â pholisïau a gweithdrefnau ategol, ynghyd â mabwysiadu Polisïau a Strategaethau Caffael Cyfrifol Cymdeithasol sy'n gyffredinol yr un fath ar draws holl gynghorau Ardal.

Trwy gydol ei 10 mlynedd a mwy gyda'r Tîm Caffael, mae John wedi cael ei gydnabod am ei fewnwelediad strategol, ei ethos gweithio cydweithredol a'i rôl wrth feithrin amgylchedd gwaith cadarnhaol. Mae gwaith arloesol tîm John wrth ymgorffori caffael sy'n gyfrifol yn gymdeithasol ar draws Cyngor Caerdydd wedi cael ei gydnabod mewn nifer o Wobrau Caffael y DU a Chymru dros y blynyddoedd. Mae John yn arbennig o falch o'i rôl yn helpu Caerdydd i ddod yn ddinas Cyflog Byw Gwirioneddol a gwaith ei dîm i leihau carbon, mynd

i'r afael â chaethwasiaeth fodern a chynyddu'r buddion lles cymunedol a ddarperir gan gontractwyr. Mae holl waith polisi'r tîm yn cael ei yrru gan ddadansoddeg data gwariant cadarn.

Bydd John yn gweithio gyda Simon Robison, ei olynydd tan 2026, i sicrhau proses bontio rwydd. Wrth i John gychwyn ar y bennod newydd hon, mae cydweithwyr yn dymuno'r gorau iddo am ymddeoliad haeddiannol a hir.



Y RHIFYN HWN	TUDALEN
Diweddariadau Ardal	2-3
Caethwasiaeth fodern	4-5
Effaith gymunedol	6-7
Arena	8
Partneriaeth Tai	9
Llanisien Fach	10
Ysgol Uwchradd Willows	11
Stryd Bute	12
Trem y Môr	13
Prosiect Llaneirwg	14
Ysgol Cynefin (Ysgol y Court)	15
Centregreat	16
Campws y Tyllgoed	17
Arbor	18
Connected Kerb	19
Onsite Construction Academy	20-21
Addewid Caerdydd	22



Expo Busnes Cymru

Ein Pennaeth Caffael Gemma Ellis ar Banel Economi Sylfaenol – Prynu'n Nes at y Cartref yn Expo Busnes Cymru yn Abertawe, yn trafod ffyrdd y gallwn gefnogi busnesau bach a chanolig a chyflenwyr lleol mewn contractau'r sector cyhoeddus



Digwyddiad Busnes Cymru

Roedd Penny Haywood, Uwch Reolwr Categori Ardal, yn falch o siarad yn Ffrâm24: Adeiladu Cymru Gyda'n Gilydd.

Ar 18 Medi 2025 yn Arena Utilita, Caerdydd, fe wnaeth hi rannu mewnwelediadau am Gaffael Ardal a'n fframweithiau cydweithredol:

- SEWSCAP
- Priffyrdd SEW
- SEWTAPSu

Diolch i bawb a wnaeth gysylltu a chydweithio â ni.

**Dwi'n siarad yn
I'm speaking at**



**Adeiladu Cymru gyda'n Gilydd
Building Wales Together
18.09.25**



sewtaps



sewh



sewscap



DIWEDDARIADAU ARDAL



Digwyddiad Busnes Cymru

Y tîm yn Expo Busnes Cymru yn Abertawe

Croeso Simon!

Mae'n bleser gennym groesawu Simon Robison fel ein Rheolwr Strategaeth a Datblygu newydd o fewn Caffael Aardal.

Mae Simon yn dod â phrofiad helaeth yn y sector cyhoeddus mewn caffael, cyllid a datblygu strategol, ar ôl arwain prosiectau gwerth uchel ar draws sefydliadau'r GIG a Ddinas a Sir Abertawe. Mae ei ddealltwriaeth ddofn o ddeddfwriaeth gaffael, trawsnewid systemau ac ymgysylltu â rhanddeiliaid yn ei roi mewn sefyllfa ddelfrydol i arwain agenda caffael strategol Caerdydd.



Yn ei rôl newydd, bydd Simon yn:

- Arwain y Tîm Strategaeth a Datblygu, gan gefnogi'r gwaith o ddatblygu strategaethau comisiynu a chaffael;
- Gyrru arloesedd a gwelliant ar draws systemau a phrosesau caffael, gan gynnwys eGaffael a dadansoddi gwariant;
- Hyrwyddo lles economaidd, cymdeithasol ac amgylcheddol ar draws meysydd gwasanaeth;
- Gweithredu fel cyswllt allweddol ar gyfer cyfathrebu a'r cyfryngau, a chynrychioli'r gwasanaeth mewn cynadleddau a digwyddiadau;
- Sicrhau cydymffurfiaeth â fframweithiau llywodraethu a rheoli risg;
- Cefnogi'r gwaith o weithredu deddfwriaeth gan gynnwys Deddf Caffael 2023 a Deddf Partneriaeth Gymdeithasol a Chaffael Cyhoeddus (Cymru);
- Rhoi cefnogaeth gyda'r mentrau Cyflog Byw Gwirioneddol diweddaraf.

Mae penodiad Simon yn adlewyrchu ymrwymiad Aardal i ragoriaeth strategol, cynaliadwyedd a gwelliant parhaus. Rydym yn edrych ymlaen yn gyffrous at weld effaith ei arweinyddiaeth.

DIWEDDARIADAU ARDAL – CAETHWASIAETH FODERN

Roedd Goleudy Coffa Scott ar llyn Parc y Rhath yng Nghaerdydd yn disgleirio'n goch ar 18 Hydref ar gyfer Diwrnod Atal Caethwasiaeth. Mae goleuo'r tirnod eiconig hwn yn helpu i godi ymwybyddiaeth o gaethwasiaeth fodern a masnachu pobl. Mae Cyngor Caerdydd wedi ymrwymo i gadw'r troseddau hyn allan o'i gadwyni cyflenwi a busnes : orlo.uk/XFzFc



CAETHWASIAETH FODERN

Caethwasiaeth Fodern

gan Jeff Norman

Mae Tîm Caethwasiaeth Fodern Ardal yn awyddus i gynnig cymorth/cyngor/cefnogaeth i unrhyw un o'n cyflenwyr sydd wedi gwneud ymrwymadau drwy'r broses Buddion Lles Cymunedol ynghylch Caethwasiaeth Fodern. Mae hyn hefyd yn gallu cynnwys adolygiad o'r dogfennau perthnasol presennol a phrosesau eraill sydd gennych eisoes ar waith.

Mae ein ffocws ar ymrwymiad i gefnogi mentrau cadwyni cyflenwi byd-eang a lleol i reoli a lliniaru risgiau trwy fapio cadwyni cyflenwi, hyfforddiant staff a rheoli contractau. Byddem yn croesawu cyfle i drafod y cyfle ymhellach, ac i nodi ble y gallem gynorthwyo a chefnogi'r gwaith o gyflawni'r ymrwymadau buddion lles cymunedol rydych wedi'u gwneud.

Os oes angen cymorth arnoch gydag unrhyw gymorth caethwasiaeth fodern, cysylltwch â'r tîm BLIC ar cwb@caerdydd.gov.uk

EFFAITH GYMUNEDOL – MOSS ROSE

Fel nodwedd barhaus newydd o fewn y cylchlythyr, rydym yn ceisio hyrwyddo'r straeon newyddion da sy'n dod trwy ymgysylltu â chontractwyr â phrosiectau lleol.

Y chwarter hwn rydym yn canolbwyntio ar Moss Rose Cottage yn Nhredelerch. Gweler isod stori Bernadette, Sylfaenydd a Chyfarwyddwr Gweithredol Moss Rose Cottage.



Fel sylfaenydd sefydliad nid-er-elw bach yn Nhredelerch, Caerdydd o'r enw Moss Rose Cottage, ac fel yr unig aelod amser llawn o staff yno, ni allaf fynegi pa mor ddiolchgar ydw i am bob eiliad o amser, caredigrwydd ac arbenigedd a gynigiwyd yn hael gan gynifer o gontractwyr dros y blynyddoedd diwethaf, wrth iddynt anrhydeddu ac ymgorffori eu hymrwymadau Gwerth Cymdeithasol yn y gymuned leol.

Yn Moss Rose Cottage rydym yn cefnogi oedolion sydd â rhwystrau anweladwy, gan gynnig cyfleoedd a sgiliau cymdeithasol i alluogi pobl i greu bywydau llawn a boddhaol iddyn nhw eu hunain.

Mae'r cymorth contractwr hwn yn hanfodol er mwyn ein galluogi i barhau i gynnig y gwasanaeth hwn sy'n rhad ac am ddim i bawb.

Mae cynifer o fylchau yn fy set sgiliau a chyfyngiadau ar fy nghyfleoedd ariannol fel nad oes unrhyw ffordd y byddai modd i mi gynnal ein hamgylchedd hardd a chadw y bobl sy'n mynychu ein bwthyn yn ddiogel yno heb y cymorth hwn.

Yn ogystal â'r mewnbwn ymarferol fel atgyweirio ac adeiladu siediau, gwella gathau, codi ffensys a gwaith garddio sydd wedi'i wneud gan bawb, fe wnaethom hefyd elwa'n fawr o arfarniadau lechyd a Diogelwch, cyngor a mewnbwn penodol gan Wates, cymorth digidol a chynghor gan CMB a'r paratodau manwl ar gyfer ein parti pen-blwydd ac arwerthiant Nadolig diweddar a gafodd eu goruchwyllo'n llwyr gan Keir. Mae'n anhygoel ond mae Kier hefyd wedi creu lluniadau pensaernïol penodol i ni, a fydd yn ein galluogi i wneud cais am grant sylweddol yn y dyfodol agos, gan wneud Moss Rose Cottage yn hygyrch i ddefnyddwyr cadair olwyn o'r diwedd.

EFFAITH AR Y GYMUNED

O ganlyniad i'r cymorth hwn, rwyf wedi cael fy ysbrydoli a'm galluogi i barhau i symud ymlaen, hyd yn oed pan fydda i'n cael trafferth ac yn teimlo bod pethau'n ormod i mi yn ystod rhai dyddiau eithaf tywyll.

Yn olaf, o ran cymorth ariannol, rydym yn arbennig o ddiolchgar ein bod wedi cael contract i ysgythru pot planhigyn wedi'i bersonoli ar gyfer pob cartref newydd yn natblygiad diweddaraf Wates, 'Caeu Masarn/Maple Fields', gan greu ffynhonnell refeniw hanfodol i ni. Cawsom gymorth hefyd gan Wates Construction i wneud cais am grant Ymddiriedolaeth Menter Teulu Wates yn gynharach eleni, a alluogodd ni i gwblhau prosiect enfawr sy'n cefnogi Gofalwyr Di-dâl yn gynharach eleni. Mwy am hynny y tro nesaf.

Felly diolch yn fawr i chi i gyd, ond diolch arbennig i Sophie o Wates, Jess o Kier a Sarah o CMB. Gobeithio eich bod chi'n cydnabod pa effaith rydych chi wedi'i chael.



Os oes angen help ar eich prosiect cymunedol gan contractwyr lleol, cysylltwch â cwb@caerdydd.gov.uk

Mae partneriaid yn gallu cynnig oriau gwirfoddoli, cyllid cymedrol a sgiliau arbenigol.

Rydym yn rhannu pob cais addas â phrosiectau Ardal Lleol. Contractwyr sy'n penderfynu eu lefel o gymorth, felly ni ellir gwarantu cymorth sy'n cael ei drefnu trwy dîm BLIC.



KNOX & WELLS - LLANISIEN FACH

Adeiladwyd Dosbarth Enfys newydd yn Ysgol Gynradd Llanisien Fach i gynnig amgylchedd meithringar, cwbl integredig lle mae amrywiaeth yn cael ei ddathlu ac mae pob plentyn yn cael cefnogaeth i ffynnu.

Bydd y cyfleuster pwrpasol, a adeiladwyd gan Knox & Wells ac a gaffaelwyd trwy Fframwaith SEWSCAP3, yn darparu lleoedd mawr eu hangen i blant ag anghenion dysgu difrifol a chymhleth, gan helpu Caerdydd i fynd i'r afael â'r galw cynyddol am ddarpariaeth arbenigol.

Nodweddion Allweddol yr Adeilad Newydd

- Pedair ystafell ddosbarth bwrpasol wedi'u dylunio ar gyfer plant ag anghenion dysgu difrifol a chymhleth.
- Ystafell ThG amlbwrpas ar gyfer therapi a chymorth arbenigol.
- Ystafell ddosbarth fawr dan do/awyr agored gyda dyluniad bioffilig (golau, natur, tawelwch).
- Ystafell synhwyraidd bwrpasol ar gyfer rheoleiddio a lles.
- Cyfleusterau hygyrch ar gyfer gofal personol.
- Lle i dîm staff mawr gydweithio, gan gynnig dulliau cydweithredol, dan arweiniad plant

Mae'r datblygiad gwerth £4.4m wedi'i ariannu gan raglen Band B Llywodraeth Cymru, gyda chefnogaeth rhaglen gyfalaf y Cyngor. Fel gyda phob Prosiect Addysg, mae Buddion Lles Cymunedol (BLIC) yn rhan o'r asesiad tendr. Mae Knox a Wells wedi cysylltu â'r gymuned leol i gefnogi tîm rygbi Gwiwerod Rhiwbeina dan 9 oed i ddarparu un o'r prif noddwyr am y 2 flynedd nesaf.



Cyflwynwyd y pecyn i aelodau o'r tîm ar y safle gydag aelodau allweddol o'r tîm adeiladu.

Roedd Knox & Wells yn falch iawn o gyflwyno eu cit newydd i dîm rygbi Gwiwerod Rhiwbeina dan 9 oed ddoe yng Nghanolfan Adnoddau Arbenigol Cyngor Caerdydd yn Ysgol Gynradd Llanisien Fach.

Rydym yn falch iawn o gefnogi clwb a chymuned mor wych, ac rydym yn dymuno pob lwc i'r bechgyn yn eu tymor sydd i ddod!



LANCIO PARTNERIAETH TAI LOVELL

Cyfnod newydd ar gyfer y ddarpariaeth tai yng Nghaerdydd a'r Fro



Mae Cyngor Caerdydd, Cyngor Bro Morgannwg a'r arbenigwr tai Lovell Partnerships wedi sefydlu partneriaeth ffurfiol i ddarparu cynllun tai trawsnewidiol ar draws y rhanbarth.

Y cyntaf o'i fath yn y blynyddoedd diweddar gyda dau gyngor yn cydweithio â datblygwr, mae'r cydweithrediad yn garreg filltir bwysig o ran ymrwymiad yr awdurdodau lleol i ddarparu cartrefi o ansawdd uchel i gymunedau yn eu hardaloedd, gan gynnwys cartrefi fforddiadwy a chartrefi i'w gwerthu ar y farchnad.

I nodi dechrau'r bartneriaeth yn ffurfiol, ar ôl i Lovell Partnerships gael ei benodi'n gynigydd a ffefrir i gyflawni Partneriaeth Tai Caerdydd a'r Fro yn gynharach eleni, fe wnaeth Arweinydd Cyngor Caerdydd, y Cyngorydd Huw Thomas a'r Aelod Cabinet dros Dai a Chymunedau, y Cyngorydd Lynda Thorne, ymuno ag Arweinydd Cyngor Bro Morgannwg, y Cyngorydd Lis Burnett ac Aelod Cabinet y Fro dros Dai Sector Cyhoeddus ac Ymgysylltu â Thenantiaid, y Cyngorydd Sandra Perkes, a'r Rheolwr Gyfarwyddwr Rhanbarthol, James Duffett, y Cyfarwyddwr Prosiect

Rhanbarthol, Shane Jay a'r Cyfarwyddwr Adfywio a Phartneriaethau, Mary Parsons o Lovell, yn Neuadd y Sir, Bae Caerdydd heddiw i lofnodi siarter y bartneriaeth.

Mae'r siarter yn gosod gweledigaeth ac amcanion y bartneriaeth i ddarparu cartrefi fforddiadwy ac adfywio cymunedau ledled Caerdydd a'r Fro, trwy adeiladu tua 2,500 o gartrefi gan gynnwys tua 1,600 o gartrefi cyngor newydd ar draws 25

safle. Yn ystod y chwarter hwn, cyfarfu ein tîm BLIC â thîm Lovell o amgylch y bartneriaeth tai. Roedd hyn yn ffordd wych o ddod i adnabod pawb sy'n ymwneud â'r prosiect o dimau Cyngor Lovell, Caerdydd a'r Fro i drafod cyflawni BLIC ar draws y 2 Awdurdod Lleol.

<https://www.cardiffnewsroom.co.uk/releases/c25/36091.html>

LOVELL



ARENA CAERDYDD: ADEILADU LLEOLIAD A CHYMUNED WELL

Mae datblygiad Arena Caerdydd newydd wedi dechrau'n swyddogol!



Y tu hwnt i greu lleoliad o'r radd flaenaf, mae'r prosiect hwn wedi ymrwymo i ddarparu Buddion Lles Cymunedol (BLIC) sylweddol i'r ardal leol.

Mae pob partner mawr – gan gynnwys McLaren a Roberston's – wedi cytuno i ystod eang o ymrwymiadau BLIC. Mae'r rhain wedi'u dylunio i sicrhau bod y gymuned yn elwa'n uniongyrchol o'r adeiladu, gan ganolbwyntio ar bum maes hanfodol:

Swyddi a Sgiliau: Hyfforddi a recriwtio pobl leol sydd ar hyn o bryd yn economaidd anweithgar.

Yr Economi Leol: Rhoi hwb i'r gadwyn gyflenwi a chydweithio â'r 3ydd Sector.

Addysg: Cyflwyno mentrau addysgol allweddol.

Diwylliant a Bywyd: Cefnogi prosiectau cymunedol a diwylliannol.

Yr Amgylchedd: Gweithredu mentrau amgylcheddol pwysig.

Mae'r tîm Buddion Lles Cymunedol yn gyffrous i bartneru â'r Rheolwyr Contractau a'n contractwyr i wireddu'r ymrwymiadau hyn. Cadwch lygad am ein cylchlythyr sydd ar ddod, lle byddwn yn rhannu'r cynnydd adeiladu diweddaraf ochr yn ochr ag effaith gadarnhaol ein cyflenwad BLIC yn eich ardal!




ROBERTSON

MCLAREN
Exceptional People. Exceptional Places

STRAEON NEWYDDION DA MORGAN SINDALL

SLEEP ON IT LLAMAU

Roedd Morgan Sindall yn falch o gefnogi Sleep on It 2025, a drefnwyd gan V3 Group Ltd i godi arian ac ymwybyddiaeth i Llamau. Roedd yn fwy na mater o ddigwyddiad cysgu dan y sêr – profiad mor bwerus a dyluniwyd i ddod â ni i gyd yn agosach at y realiti anffodus y mae gormod o bobl yn ei wynebu bob nos. Yn ogystal â diuno ar Ddiwrnod Digartrefedd y Byd, fe gawson ni wybod hefyd ein bod wedi codi £420 i Llamau.



PARTNERIAETH Â GWIRFODDOLWYR CYMUNEDOL Y SBLOT

Trwy gydol cyfnod y prosiect, rydym wedi ymrwmo i gefnogi SCV, elusen leol sydd yn y Sblot.

Rydym yn falch o noddi un clwb brecwast y mis a fydd yn helpu'r elusen i ddosbarthu bwyd twym a bag o siopa i oddeutu 120 o bobl sy'n mynychu'n wythnosol. Rydym hefyd wedi gwirfoddoli ein hamser i helpu gyda nifer o ddigwyddiadau a mentrau.

YMGYRCH TACLUSO CAERDYDD 2025

Mewn cydweithrediad â'n Partneriaid Cadwyn Gyflenwi gwyh, Gwirfoddolwyr Cymunedol Sblot a Cadwch Gymru'n Daclus, fe gymeron ni ran yn Ymgyrch Tacluso Caerdydd yn ddiweddar. 2025. Gan ganolbwyntio ein hymdrechion ym Mharc Tremorfa, casglwyd 33 o fagiau o wastraff a'u gwaredu.



**MORGAN
SINDALL**
CONSTRUCTION

PROSIECT HALE STRYD BUTE

DIGWYDDIAD YSTYRIED ADEILADU

Beth ddigwyddodd?

Ar ôl gweithio yn Butetown am sawl mis, roedd yn amlwg nad oedd llawer o unigolion lleol yn ymwybodol o'r holl gyfleoedd ym maes adeiladu.

Penderfynodd Hale gysylltu â'r Gwasanaeth i Mewn i Waith i gyflwyno digwyddiad 'Ystyried Adeiladu'. Nod y digwyddiad hwn oedd tynnu sylw at ehangder y cyfleoedd ym maes adeiladu, a chyflwyno pobl i bartneriaid adeiladu a allai helpu gyda dechrau arni, i gael cyflogaeth â thâl.

Trwy gymorth Ymddiriedolaeth Hyatt, roedden ni'n gallu cynnal y digwyddiad hwn yng Nghanolfan Gymunedol Butetown, gan ddenu dros 50 o unigolion. Llwyddodd 10 o'r unigolion hyn i fynd i safle adeiladu byw Hale ar daith wadd i archwilio'r cyfleoedd ar y safle.



Canlyniadau a'r Camau Nesaf

O'r sesiynau a gynhaliwyd, cofrestrwyd pob unigolyn gyda'r Gwasanaeth i Mewn i Waith a'i annog i barhau i gwblhau ei gerdyn CSCS.

Ers hynny, mae unigolion o'r sesiwn hon wedi cwblhau lleoliad profiad gwaith gyda Hale ar ein datblygiad yn Stryd Bute.

Rydym yn gobeithio gweld llawer mwy o unigolion o'r sesiwn hon yn dod trwy'r gwasanaeth ac yn chwilio am gyfleoedd i fynd i mewn i'r byd adeiladu.



CYNNWYS RHANDDEILIAID

Roedd llwyddiant y fenter hon yn bosibl trwy'r cydweithrediad rhwng Hale, y Gwasanaeth i Mewn i Waith, Coleg Caerdydd a'r Fro a Sacyr. Daeth pob un at ei gilydd i roi cyflwyniadau ac roeddent yn gallu ateb unrhyw ymholiadau dilynol.

Heb gymorth y partneriaid hyn, ni fydden ni wedi gallu cynnig cymorth, o hyfforddiant lefel mynediad i brentisiaethau a chyfleoedd cyflogaeth byw.



WATES - TREM Y MÔR

Diogelu natur a gweithredu ar y newid yn yr hinsawdd trwy gydweithio ac arloesi gyda'n partneriaid



Thriving planet



403

awr o gasglu sbwriel

3

awr o glirio dail

Thriving places



Gweithio gyda chwsmeriaid, partneriaid a chymunedau i greu lleoedd sy'n fwy cynaliadwy, cynhwysol a llawn cyfleoedd.

£3.69 miliwn wedi'i wario'n lleol

£14,036.24 wedi'i wario gyda Mentrau

329 awr o wirfoddoli gan staff a'r gadwyn

£9,064.14 wedi'i roi gan Wates a'r Gadwyn



Clwb Bechgyn a Merched Grangetown: Gardd

Treulion ni ddiwrnod yn eu gardd gymunedol, gan ei drawsnewid i gefnogi uchelgais y clwb i dyfu eu bwyd eu hunain ar gyfer eu clwb coginio iach. Bydd hyn yn addysgu eu pobl ifanc am darddiad bwyd, yn ogystal â meithrin sgiliau byw'n annibynnol a chynyddu hunan-barch a hyder. Fe wnaethon ni glirio chwyn, tocio coed, paratoi eu gwelyau blodau uchel i blannu, tynnu sbwriel, plannu blodau a chael gwared ar graffiti.



Wates

Swyddfa Lovell Caerdydd yn Cefnogi Ysgolion Lleol a Hyb Cymunedol gyda Rhodd Deunydd Ysgrifennu

Ym mis Medi 2025, rhoddodd swyddfa Lovellyng Nghaerdydd amrywiaeth o ddeunydd ysgrifennu i Laura Croft, Rheolwr Busnes Ysgolion yn Nwyrain Caerdydd. Mae Laura yn cefnogi nifer o ysgolion lleol a'u Cymdeithasau Rhieni, Athrawon a Ffrindiau (CRhAffau) trwy eu helpu i gael mynediad i adnoddau a chyllid.

Rhannwyd y rhodd rhwng tair ysgol yn ardal Llaneirwg yng Nghaerdydd:

- Ysgol Gynradd Meadowlane
- Ysgol Gynradd Oakfield
- Ysgol Gynradd Willowbrook

Yn ogystal, dyrannwyd rhan o'r rhodd i grwpiau cymunedol sydd wedi'u lleoli yn yr hyb cymunedol lleol, "The Hive".



Roedd yr eitemau a roddwyd yn cynnwys:

- 27 ffolder A4
- 3 ffolder blwch
- 40 o ffeiliau crog
- 10 ffolder A3
- 6 teclyn tyllu
- 400 o bocedi plastig
- 26 o ranwyr ffeiliau
- 30 o gydau lamineiddio A4
- 30 o ffolderi cardiau
- 10 o bocedi plastig A3

Cyfanswm gwerth y rhodd hon

LOVELL



KIER - THE COURTS

Enw'r Prosiect: Ysgol Cynefin (Ysgol y Court) Y Tyllgoed a Llanrhymni

Trosolwg o'r Prosiect:

Mae cwmni adeiladu Kier yn falch iawn o fod yn adeiladu'r Ysgol Cynefin newydd fel rhan o Gymunedau Dysgu Cynaliadwy band B Cyngor Caerdydd a Llywodraeth Cymru. Bydd yr ysgol newydd yn disodli ysgol ADY bresennol y Court yn Llanisien, gan helpu i ateb galw'r ddinas am ddarpariaeth arbenigol i blant oedran cynradd. Wedi'u rhannu rhwng dau safle, bydd dau adeilad newydd Ysgol y Court yng Nghaerdydd yn darparu lleoedd ychwanegol i ddisgyblion ledled y ddinas, gan gynyddu nifer y lleoedd o 42 i 72 a darparu cyfleusterau gwell gerllaw ysgolion cynradd prif ffrwd. **Sylw ar Brentisiaethau**

Prentisiaethau: Sgiliau a Dyfodol Adeiladu

Mae prentisiaethau wedi chwarae rhan hanfodol ar draws ein prosiectau, nid yn unig wrth gefnogi datblygu talent i'r dyfodol ond hefyd wrth gyfrannu at gynaliadwyedd hirdymor y diwydiant. Hyd yn hyn, rydym wedi croesawu 14 o brentisiaid, gan gyfrannu cyfanswm o 230 wythnos o brofiad ar safleoedd Ysgol Cynefin. Mae'r prentisiaid hyn wedi dod ag ystod amrywiol o sgiliau gan gynnwys sgiliau Trydanol, Peirianeg, Gwaith Coed, Rheoli Safle a Sgaffaldio. Trwy gynnig cyfleoedd dysgu ymarferol, rydym yn helpu prentisiaid i ennill profiad byd go iawn, magu hyder a datblygu'r sgiliau technegol a phroffesiynol sydd eu hangen i ffynnu yn eu gyrfaedd. Mae'r lleoliadau hyn hefyd yn cryfhau ein hymrwymiad i werth cymdeithasol, gan sicrhau bod ein prosiectau'n gadael etifeddiaeth barhaol yn y cymunedau rydym yn eu gwasanaethu.

Pobl leol a gyflogir ar y contract: 15

Cyfleoedd Profiad Gwaith i bobl leol: 10 person

118 wythnos o hyfforddion ar y prosiect yn cefnogi eu taith yrfa

Ymweliadau Ysgolion Lleol: 218 awr dros 17 ymweliad yn ymgysylltu â dros 1933 o ddisgyblion 147 awr o 'gymorth i mewn i'r gwaith' gan gynnwys mentora, ffug gyfweiliadau a chyngor gyrfa

Cyllid Cymunedol: £41,170

Gwirfoddoli: 802 awr

Mae tîm Ysgol Cynefin wedi bod yn brysur yn cefnogi prosiectau lleol megis prosiect leuenctid Hyb Llaineirwg, cynnal gweithgareddau bwyd a llawn hwyl gydag ysgolion cynradd lleol, creu ffos Rhyfel Byd Cyntaf yn Ysgol Uwchradd Fitzalan i gefnogi dysgu, gwirfoddoli yn Moss Rose Cottage yn cefnogi oedolion sydd â rhwystrau anweledig a llawer mwy!



CENTREGREAT ENGINEERING

Ysbrydoli'r Genhedlaeth Nesaf: Gwaith Ymgysylltu Centregreat ag Ysgol Uwchradd Gymunedol Gorllewin Caerdydd yn Arwain at Lwyddiant Prentisiaeth Newydd

Yn ôl yn 2023, cymerodd Centregreat ran yn falch o Gynllun Cyswllt Diwydiant Addewid Caerdydd a drefnwyd ac a reolwyd gan Gareth McCarthy, menter sy'n dod â busnesau ac ysgolion lleol ynghyd i helpu pobl ifanc i ddarganfod cyfleoedd gyrfa i'r dyfodol. Yn ystod y prosiect blwyddyn o hyd, roedd Ysgol Uwchradd Gymunedol Gorllewin Caerdydd yn partneru â sefydliadau o bob rhan o'r sectorau adeiladu a pheirianeg i roi mewnwelediad gwerthfawr i fyfyrwyr Blwyddyn 10 ar brosiectau go iawn a'r amrywiaeth o rolau sydd ar gael.



Chwaraeodd Centregreat Engineering ran allweddol yn y fenter, gan gyflwyno sesiwn ddosbarth ddifyr dan arweiniad y Cyfarwyddwr Gweithrediadau James Connolly a'r Cyfarwyddwr Peirianeg Dave Chapman. Yn ystod y sesiwn, dysgodd myfyrwyr am beirianeg ddur, dylunio pontydd a'r prosesau y tu ôl i gyflawni prosiectau seilwaith cymhleth.

Yn dilyn y sesiwn yn yr ystafell ddosbarth, cynhaliodd Centregreat dri ymweliad â'i weithdy peirianeg yng Nghaerdydd, lle cafodd tua 30 o fyfyrwyr brofiad ymarferol o sut mae pontydd ac adeileddau dur yn cael eu dylunio a'u hadeiladu. Roedd yr ymweliadau hyn yn galluogi myfyrwyr i weld theori yn dod yn fyw ac yn rhoi cipolwg ar fyd deinamig peirianeg ac adeiladu.

Dangosodd un myfyriwr yn arbennig, disgybl Blwyddyn 10 o'r enw Ashley Brockway, ddiddordeb brwd mewn dysgu mwy am waith Centregreat – yn enwedig ochr drydanol y busnes. Dychwelodd Ashley am ail ymweliad, yn awyddus i ddyfnhau ei ddealltwriaeth. Dros y ddwy flynedd nesaf, arhosodd mewn cysylltiad â Dave Chapman, gan ddangos ei frwdfrydedd a'i ymrwymiad i ddilyn gyrfa yn y diwydiant.

Talodd yr ymroddiad hwnnw ar ei ganfed. Yn 2024, cyflwynodd Dave Chapman wobwr i Ashley yn seremoni Wobrwyo Ysgol Uwchradd Gymunedol Gorllewin Caerdydd i gydnabod ei ddiddordeb a'i ymgysylltiad parhaus. Yn 2025, yn fuan ar ôl cwblhau Blwyddyn 12, cynigiwyd prentisiaeth i Ashley gyda Centregreat, gan ymuno ag adran Signalau Traffig y cwmni, lle mae bellach yn dechrau ei yrfa mewn peirianeg.

Mae'r daith llawn ysbrydoliaeth hon yn tynnu sylw at effaith wirioneddol partneriaethau cymunedol megis Addewid Caerdydd. Yn ogystal ag agor drysau i bobl ifanc, maen nhw hefyd yn helpu busnesau fel Centregreat i feithrin talent lleol a buddsoddi yn y genhedlaeth nesaf o weithwyr proffesiynol medrus.

"Mae gweld brwdfrydedd Ashley yn datblygu dros y ddwy flynedd ddiwethaf wedi dwyn boddhad mawr," meddai Dave Chapman, Cyfarwyddwr Peirianeg yn Centregreat. "Mae'n brawf bod mentrau fel hyn yn gwneud gwahaniaeth gwirioneddol – nid yn unig i'r myfyrwyr, ond i ddyfodol ein diwydiant." Mae Centregreat yn parhau i hyrwyddo cyfleoedd sy'n cysylltu addysg â diwydiant, gan sicrhau bod pobl ifanc ledled De Cymru yn gallu archwilio gyrfaedd cyffrous a gwerth chweil ym maes adeiladu, peirianeg a seilwaith.

**Os ydych chi'n gweithio
ar brosiectau yng
Nghaerdydd, Bro
Morgannwg, Sir Fynwy
a Thorfaen ac angen
cymorth, cysylltwch â ni.**

BLIC – CAMPWS CYMUNEDOL Y TYLLGOED

Roedden ni'n falch iawn o gychwyn ein cynllun Cenhadon Carbon ac Adeiladu gyda'r disgyblion gwyb o Ysgol Woodlands ym mis Medi.




Mwynhaodd ein grŵp cyntaf daith gyffrous o amgylch eu safle ysgol newydd, gan archwilio'r mannau a fyddai'n dod yn ystafelloedd dosbarth ac ardaloedd gweithgareddau iddynt cyn bo hir. Daeth eu cyffro a'u chwilfrydedd â chymaint o egni i'r ymweliad, roedd yn hyfryd eu gweld yn dychmygu beth allai pob ystafell fod.

Yn gynnar ym mis Hydref, ymunodd grŵp arall â ni ar Gampws Cymunedol y Tyllgoed ar gyfer eu sesiwn ddysgu ymarferol gyntaf. Wedi'u gwisgo fel rheolwyr safle, fe wnaethant archwilio'r hyn sydd ei angen i gynllunio ac adeiladu, o ddewis pa fath o brosiect y byddent yn ei ddylunio, i ddewis deunyddiau a lliwiau, a hyd yn oed gweld peiriannau planhigion go iawn ar y safle. Fe wnaethon nhw orffen y sesiwn gyda rhywfaint o liw creadigol, a fydd yn goleuo ein caban sefydlu cyn bo hir – ffordd hyfryd i'w hatgoffa o'u hymweliad.

Rydym yn falch o wneud y sesiynau hyn yn hwyl, yn ddiddorol ac yn hygyrch i bob dysgwr, gan helpu pawb i brofi byd adeiladu yn eu ffordd eu hunain.

Diolch yn fawr iawn i Angela Withey (Cyngor Caerdydd) a'n cydweithwyr BLIC, Alan Fry a Sarah Burge, am wneud y sesiwn mor arbennig – ac i'n rheolwyr safle ifanc am eu brwdfrydedd (a'u harchwaeth am ffrwythau ffres!).

Dyma ysbrydoli'r genhedlaeth nesaf o adeiladwyr, dylunwyr ac arloeswyr – un profiad cynhwysol ar y tro!



Trosglwyddo Adeilad Iechyd a Lles Campws Cymunedol y Tyllgoed yn Campws Cymunedol y Tyllgoed yn Llwyddiannus

Naw mis ar ôl i Borley Engineering Services Limited (BESL) gydio yn yr awenau fel Prif Gontractwr Dros Dro, rydym bellach wedi llwyddo i drosglwyddo cam cyntaf Campws Cymunedol y Tyllgoed, gyda'r Adeilad Iechyd a Lles, o'r enw Copa bellach yn weithredol.



Arbor yn lansio ei Gynnig Effaith Gymdeithasol yng Nghaerdydd

Yn Arbor, rydyn ni ar genhadaeth i newid y ffordd y mae ysgolion yn gweithio er gwell. Mae Systemau Gwybodaeth Reoli Arbor yn dod â staff, myfyrwyr, rhieni ac arweinwyr at ei gilydd, gan helpu pawb i weithio'n well mewn un system reddfol, a rennir. Mae dros 10,500 o ysgolion yng Nghymuned Arbor ac rydyn ni wrth ein bodd bod Caerdydd wedi dewis Systemau Gwybodaeth Reoli a Chyllid Arbor yn ddiweddar ar gyfer pob un o'i 128 ysgol.

Mae effaith gymunedol bob amser wedi bod wrth wraidd yr hyn a wnawn, ac roedd Cynhadledd Penaethiaid Caerdydd yn ddiweddar yn gyfle delfrydol i lansio ein cynnig effaith gymdeithasol i arweinwyr o bob rhan o'r ardal.

Yn y gynhadledd hon, fe wnaethon ni rannu nifer o fentrau y gallai ysgolion elwa ohonynt yn ystod y 5 mlynedd nesaf. Mae'r rhain yn amrywio o gefnogi datblygiad gyrfa i fyfyrwyr, achosion elusennol ledled y ddinas, a gyrru effaith ar fywyd ysgol.

Rydyn ni'n edrych ymlaen at ddechrau arni a gyrru newid mewn ysgolion ledled Caerdydd gyda'n SGR, a hefyd cefnogi'r gymuned leol yn ehangach.

Ychwanegodd Matthew O'Brien, yr Arweinydd Cyflawni ar gyfer Cwricwlwm, TechAdd a Systemau Gwybodaeth:

Rydym wrth ein bodd i weld ysgolion Caerdydd yn mabwysiadu Systemau Gwybodaeth Reoli a Chyllid Arbor. Mae hyn yn gam sylweddol ymlaen wrth symleiddio sut rydyn ni'n cefnogi dysgwyr, staff a theuluoedd. Mae'r mentrau effaith gymdeithasol a lansiwyd yng Nghynhadledd y Penaethiaid yn cyd-fynd yn berffaith â'n hymrwymiad i addysg gynhwysol a chymunedol. Rwy'n gyffrous i weld sut y bydd y bartneriaeth hon yn grymuso ysgolion ac yn cyfoethogi bywydau ledled y ddinas.



Cefnogi AD mewn Sefydliadau sy'n Tyfu – Mae ein Gweminar Cyntaf yn Fyw!

Rydyn ni wrth ein bodd o rannu ein bod wedi lansio'r sesiwn gyntaf yn ein cyfres hyfforddiant a chymorth newydd ar gyfer busnesau bach a chanolig ac elusennau ledled Caerdydd. Mae'r fenter hon wedi'i chynllunio i gryfhau gweithrediadau busnes a helpu sefydliadau i ffynnu.

Mae ein sesiwn agoriadol, "Cefnogi AD mewn Sefydliad sy'n Tyfu" bellach ar gael i'w gwyllo ar-lein. P'un ai AD yw eich prif ffocws neu dim ond un rhan o'ch rôl, bydd y weminar hon yn eich helpu i deimlo'n fwy hyderus a pharod i reoli cyfrifoldebau AD yn effeithiol.

Gwylwch y Gweminar Cymorth AD [Yma](#)

Dan arweiniad Stephanie Robinson, ein Rheolwr Adnoddau Dynol profiadol gyda 15 mlynedd o arbenigedd traws-ddiwydiant, mae'r sesiwn yn cwmpasu canllawiau ymarferol byd go iawn ar draws meysydd allweddol:

Polisiâu ac Arfer Gorau – Adeiladu sylfeini AD cryf sy'n cyd-fynd â'ch gwerthoedd.

Hanfodion AD – Deall cyfrifoldebau statudol megis pensiynau, absenoldeb salwch a hawl i wyliau. Buddion a Lles – Cefnogi'ch tîm gyda mentrau iechyd, buddion ariannol a strategaethau cydbwysedd gwaith-bywyd.

Cylch Bywyd y Gweithiwr – O recriwtio i gadw a'r tu hwnt, gyda chynghor y gellir ei roi ar waith ar bob cam. Cynnal Ymchwiliad AD Teg – Trin sefyllfaoedd sensitif gydag eglurder a phroffesiynoldeb.

Mae'r weminar hon yn rhan o'n Cyfres Cefnogi Sefydliadau ehangach, gyda sesiynau newydd am Farchnata a Gweithrediadau yn cael eu lansio yn y flwyddyn newydd. Cofrestrwch yma i sicrhau eich lle.

Os oes gennych unrhyw gwestiynau AD dilynol, bydden ni wrth ein bodd o helpu.

Cysylltwch â ni maria.king@connectedkerb.com

Gyda'n gilydd, rydym yn adeiladu sefydliadau gwydn gan roi pobl yn gyntaf ledled Caerdydd.

Connected__Kerb

ACADEMI ADEILADU AR Y SAFLE (AAS)



ACADEMI ADEILADU AR Y SAFLE DE-DDWYRAIN CYMRU ONSITE CONSTRUCTION ACADEMY SOUTH EAST WALES

Mae Academi Adeiladu ar y Safle (AAS) De-ddwyrain Cymru yn rhaglen hyfforddi, profiad a chyflogaeth ar gyfer gyrfaedd yn y diwydiant adeiladu. Wedi'i ariannu gan y CITB a'i ddarparu gan y Gwasanaeth Cyngor i Mewn i Waith, mae'r AAS yn rhoi cymorth i gcontractwyr a cheiswyr gwaith (newydd-ddyfodiaid, dychwelwyr a newidwyr gyrfa) o bob oed ledled Prifddinas-Ranbarth Caerdydd, gan baratoi ceiswyr gwaith ar gyfer gwaith yn y sector trwy brofiadau ar safleoedd a hyfforddiant wedi'i ariannu.

Mae ein hymgeiswyr yn cynrychioli rhai o'r cymunedau mwyaf difreintiedig ac sydd heb gynrychiolaeth

ddigonol, gan gynnwys y di-waith, yr economaidd anweithgar, y di-waith hirdymor, pobl ifanc nad ydynt mewn addysg/cyflogaeth/hyfforddiant, pobl ifanc â phrofiad o fod mewn gofal, pobl dros 50 oed, cyn-droseddwyr, pobl Ddu a lleiafrifoedd ethnig, a menywod.

Mae gennym brofiad o weithio gyda chwmnïau haen 1, contractwyr, cadwyni cyflenwi ac asiantaethau recriwtio, gan gyflenwi ymgeiswyr dibynadwy ac ymroddedig i helpu i gyflawni targedau Buddion Lles Cymunedol ynghylch cyflogaeth a sgiliau ac rydym bob amser yn chwilio am gyfleoedd profiad gwaith a chyflogaeth i'n hymgeiswyr.



Os hoffech chi gael eich cynnwys ar ein rhestr bostio ymgeiswyr CSCS a/neu gymryd rhan yn ein rhaglen hyfforddi, cysylltwch â ni yn AcademiAdeiladu@caerdydd.gov.uk.

I MEWN I WAITH CAERDYDD – WATES

Am ffordd braf o orffen yr wythnos!

Daeth Isaac (yn y llun ar y chwith) i'n safle yn Trem y Môr ar brofiad gwaith trwy'r Academi Adeiladu ar y Safle tua 4 mis yn ôl, ac ers hynny mae wedi cael ei gyflogi fel labrwr llawn amser. Dyma fe, yn cyflwyno tystysgrif profiad gwaith i Najeeb Delame sydd newydd gwblhau wythnos o brofiad gwaith gyda ni trwy'r AAS hefyd!



Mae i gyd yn dangos gwerth cyfleoedd Profiad Gwaith... Nid yn unig mae'n cyfrannu at CV, mae hefyd yn magu hyder, ac yn creu cyfleoedd.

#gwerthcymdeithasolwates
#profiadgwaith
#adeiladu
#profiadarysafle
#tremymor



Os oes angen cymorth arnoch gyda'r uchod, cysylltwch â claire.rowlands-gent@caerdydd.gov.uk

ADDEWID CAERDYDD

Llunio Gweithlu Caerdydd y Dyfodol – Heddiw

Ymunwch ag Addewid Caerdydd a chysylltu eich busnes ag ysgolion a phobl ifanc ledled y ddinas.

Beth yw Addewid Caerdydd?

Mae Addewid Caerdydd yn fenter ledled y ddinas sy'n dod ag ysgolion, cyflogwyr a phartneriaid cymunedol ynghyd i ysbrydoli a chefnogi plant a phobl ifanc yng Nghaerdydd. Ein cenhadaeth yw sicrhau bod pob person ifanc yn gallu cael mynediad i gyfleoedd ystyrlon sy'n eu paratoi ar gyfer y byd gwaith

Pam Cymryd Rhan?

Cael effaith wirioneddol

Helpu i lunio dyheadau a sgiliau gweithlu Caerdydd y dyfodol.

Adeiladu Eich Piblinell Dalent Codi

ymwybyddiaeth o'ch diwydiant a'r llwybrau gyrfa y mae'n eu cynnig

Darparu Gwerth Cymdeithasol/ Cyfrifoldeb Cymdeithasol Corfforaethol (CCC)

Dangos eich ymrwymiad i'r gymuned sy'n darparu gwerth cymdeithasol neu wirfoddoli trwy CCC

Cydweithio ag ysgolion

Cyd-ddylunio Gyrfaedd a Phrofiadau Cysylltiedig â Gwaith (GPhG) sy'n cyd-fynd â'ch sector.

Ffyrdd o Gymryd Rhan

Cefnogi ysgolion gyda phrofiadau gyrfaedd a gwaith
Cynnig Profiad Gwaith, mentora neu wirfoddoli mewn ysgolion
Ymuno â Fforwm Busnes Ysgol Uwchradd
Datblygu Llwybrau Cyflogaeth â Chymorth
Rhannu cyfleoedd ôl-16 trwy www.whatsnextcardiff.co.uk/cy

Gadewch i Ni Greu Dyfodol Disgleiriach – Gyda'n Gilydd

Cysylltwch â: Darren Phillips, Prif Swyddog Datblygu Busnes
addewidcaerdydd@caerdydd.gov.uk
www.addewidcaerdydd.co.uk
www.whatsnextcardiff.co.uk/cy





ardal

Gwefan:



LinkedIn:

